

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

Y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2017



Capel y Tabernacl, Cyf.

Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:

06349041(Cymru)

Elusen Gofrestredig Rhif: 1122584

CYNNWYS

Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol	Tudalen 2–3
Swyddogion y Tabernacl	Tudalen 4–5
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	Tudalen 6–8
Adroddiad y Cadeirydd	Tudalen 9–10
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	Tudalen 11
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	Tudalen 12
Mantolen	Tudalen 13
Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol	Tudalen 14–20
Datganiad Manwl o'r Gweithrediadau Ariannol	Tudalen 21
Atodiad 1: Cyfraniadau'r Aelodau	Tudalen 22–23
Atodiad 2: Ystadegau 2017	Tudalen 23

Dymuna Capel y Tabernacl, Cyf. ddiolch i'r canlynol am eu cymorth ariannol gyda'r gwaith o wella'r adeiladau yn ddiweddar:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.

Enw cofrestredig y cwmni: Capel y Tabernacl, Cyf.

Cyfeiriad Cofrestredig: 9, Gerddi'r Sofran, Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pont-y-clun
CF72 8SZ

Ysgrifennydd y Cwmni: Gwilym Huws

Cyfarwyddwyr y Cwmni ac Ymddiriedolwyr yr Elusen

Enw

Etholwyd

Siân Llewelyn Barnes	Tachwedd 2017
Margaret Pritchard Copley	Tachwedd 2015 (<i>Cadeirydd</i>)
Ann Dwynwen Davies	Tachwedd 2016
Eluned Mary Davies-Scott	Tachwedd 2017
Carys Davies*	Tachwedd 2014
Rhiannon Humphreys	Tachwedd 2015
Gwilym Huws*	Tachwedd 2014
Arwyn Lloyd Jones	Tachwedd 2017
Emlyn Penny Jones	Tachwedd 2016
Sian Elin Jones	Tachwedd 2015
Rhiannon Llewelyn	Tachwedd 2017
Gwerfyl Morse	Tachwedd 2015
Geraint Eirian Rees	Tachwedd 2016
Wendy Reynolds*	Tachwedd 2014
John Llewellyn Thomas	Tachwedd 2016

Mae disgwyl i draean y cyfarwyddwyr ymddeol yn eu tro bob blwyddyn.
Ymddeolodd y cyfarwyddwyr a nodir gyda * ym mis Tachwedd 2017.

Gwefan: www.tabernacl.org

Cyfreithwyr: Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW

Banc: Lloyds TSB, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF

Cyfrifydd: Watts Gregory LLP, Cyfrifwyr Siartredig, Elfed House, Oak Tree Court,
Mulberry Drive, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RS

SWYDDOGION ERAILL Y TABERNACL

Cadeirydd:

Margaret Pritchard Copley

Ysgrifennydd:

Gwilym Huws

Trysorydd:

Arwyn Lloyd Jones

Trefnydd Oedfaon, Cyhoeddiadau a Phriodasau:

Geraint Rees

Trefnydd Bedyddiadau:

Jane Eryl Jones

Organyddion a Chyfeilyddion:

Sian Elin Jones gyda chymorth

Bethan Roberts, Rhiannon Humphreys ac Eleri Huws

**Swyddog Llenyddiaeth, Trefnydd Llywyddion
a Chofnodydd Aelodaeth:**

Rowland Wynne

Golygydd y Wefan a Bas-data cyfeiriadau e-bost:

Emlyn Davies

Cysylltwyr Ardal:

Creigiau a Groesfaen: Geraint W. Davies, Jen Macdonald, Nia Williams

Crown Hill, Gwaun Meisgyn a Beddau: Ann Rees

Efail Isaf: Judith Thomas, Loreen Williams

Pentre'r Eglwys: Rhiannon Humphreys, Carys Davies, Eirian Rowlands

Meisgyn: Jane Eryl Jones

Pentyrch: Marian Wynne

Ton-teg: Elaine James, Audrey Lewis

Radur a Gwaelod-y-Garth: Rosalind Evans

Gweithgor Ariannol:

Wyn Penri Jones (*Ysgrifennydd*)

Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus:

Gwion Evans (*Cadeirydd*)

Pwyllgor y Meddiannau:

Mike West (*Cadeirydd*)

Y Fynwent: Rob Emanuel

SWYDDOGION ERAILL Y TABERNAACL

(parhad)

Y Gweithgor Gweinidogaethu:

Parchg. D. Eirian Rees *(Cadeirydd)*

Allan James *(Ysgrifennydd)*

Merched y Tabernacl:

Rosalind Evans

Judith Thomas

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol:

John Ll. Thomas *(Cadeirydd)*

Ann D. Davies *(Ysgrifennydd)*

Cymorth Cristnogol: John Ll. Thomas

Bwydo'r Digartref: Gill Rees

Cronfa Lesotho: Nia Williams

Yr Ysgol Sul a'r Twmiaid:

Lowri Roberts *(Ysgrifennydd)*

Yr Ysgol Sul: Bethan Reynolds

Y Twmiaid: Catrin a Heulyn Rees

Cofrestru Priodasau:

Rhiannon Humphreys gyda chymorth

Rhys Llewelyn a Helen Middleton

Rheolwr y Safle:

Ioan Rees

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2017. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2015).

Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydfurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan y Cyfarwyddwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Cyfarwyddwyr.

Y Cyfarwyddwyr

Etholir y Cyfarwyddwyr gan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Capel y Tabernacl, Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin) ni fydd yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd hawl i gyfethol cyfarwyddwyr ychwanegol. Yn dilyn pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd y Cyfarwyddwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 person sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

Ymgynghorwyr

Trwy gydol 2017 gweithredodd y Parchedig Eirian Rees, Allan James a Keith Rowlands fel ymgynghorwyr.

Rheoli

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn fisol. Mae gwaith yr eglwys yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan nifer o bwyllgorau a gweithgorau sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Bydd pob un o'r pwyllgorau a'r gweithgorau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na deg punt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

Cyflogaeth

Mae'r Tabernacl yn cyflogi un person rhan-amser, sef Mr Ioan Rees fel Rheolwr Safle, ynghyd â glanhäwr.

Adolygiad Risg

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, data personol yr aelodau, staffio a'r amgylchedd.

Amcanion a Gweithgareddau

Prif amcan y cwmni yw bod yn eglwys yn rhoi cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, ac yn yr ardal o gwmpas. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

Llwyddiannau a Pherfformiad

Penderfynodd y Bwrdd gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wahân i'r cyfrifon, yn manylu ar weithgareddau'r elusen. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd yn adolygu'r hyn a gyflawnwyd. At ddibenion y datganiad hwn, gweler Adroddiad y Cadeirydd.

Adolygiad Ariannol

Adroddir canlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2017 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalennau 10–19.

Derbyniwyd cyfanswm o £44,384 o adnoddau (2016: £63,796) a gwariwyd cyfanswm o £45,090 yn ystod y flwyddyn (2016: £50,409), felly roedd adnoddau net a dderbyniwyd llai hynny a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn -£706 o'i gymharu â £13,387 yn 2016. Y rheswm am y cyferbyniad rhwng cyfrifon 2017 a 2016 yw mai yn 2016 y derbyniwyd grantiau tuag at gostau atgyweirio'r Capel ynghyd â'r rhodd o organ newydd. Serch hynny, mae cyfanswm cronfeydd y cwmni (gan gynnwys yr asedau sefydlog a'r asedau cyfredol) ar ddiwedd 2017 yn werth £753,271 o'i gymharu â £753,977 ar ddiwedd 2016. Bellach, y cyfan sydd heb ei ad-dalu am y gwaith atgyweirio yw gweddill y benthyciad di-log o £15,000 dros 5 mlynedd sy'n ddyledus i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ni roddwyd unrhyw dâl i'r Ymddiriedolwyr.

Polisi Buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

Polisi Cronfeydd

Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £22K y flwyddyn mewn rhoddion gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

Datblygiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, ac felly'n derbyn y cyfrifoldeb am baratoi'r Adroddiad Blynnyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion safonau cyfrifyddol perthnasol y Deyrnas Gyfunol. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cyfraith elusennau'r Deyrnas Gyfunol yn mynnu bod yr Ymddiriedolwyr yn darparu datganiadau ariannol am bob blwyddyn, sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr yr elusen, ac o incwm a thraul yr elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae disgwyl i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol addas ac yna'u gweithredu'n gyson
- ddyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol a doeth
- ddweud bod safonau cyfrifyddol perthnasol a *Datganiad Ymarferion a Argymhellwyd* wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw wyriadau materol sydd wedi eu datguddio a'u hesbonio yn y datganiadau cyllidol
- ddarparu datganiadau ariannol ar sail busnes oni bai ei bod yn anaddas i gymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cyfrifon penodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ac ar unrhyw adeg, gyflwr cyllidol yr elusen ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydsynio â'r deddfau perthnasol. Maent hefyd yn gyfrifol am warchod asedau'r elusen ac i gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Polisi Arian Wrth Gefn

Penderfynodd y Cyfarwyddwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19).

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r eglwys mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.
2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.
3. I gynnal a chadw'r adeiladau fel ein bod yn medru wynebu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein prif waith fel eglwys.

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

Archwilydd Annibynnol

Archwilydd Annibynnol y cyfrifon hyn oedd Watts Gregory LLP, Elfed House, Oak Tree Court, Mulberry Drive, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RS.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail canllawiau *Cyfrifo ac Adrodd i Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon ac yn unol â gofynion Safonau Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2015).*

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 11 Medi 2018 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Arwyn Lloyd Jones
Ymddiriedolwr



Margaret Pritchard Copley
Ymddiriedolwr

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf
ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Braint ac anrhydedd i mi'n bersonol oedd derbyn yr enwebiad i fod yn Gadeirydd ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Capel y Tabernacl ar ddechrau'r flwyddyn, gan fod yr achos hwn mor agos at fy nghalon. Er nad mater hawdd oedd derbyn yr her o olynu Wendy Reynolds – fu'n arweinydd mor urddasol, ymroddgar a doeth am gyfnod o ddwy flynedd gyffrous yn hanes yr eglwys – roedd yn gysur gwybod y gallwn bwyso'n drwm ar ddiwydrwydd a phroffesiynoldeb y prif swyddogion eraill.

Hoffwn dalu diolch diffuant iawn yn y lle cyntaf i aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am hwyluso fy ngwaith fel Cadeirydd yn ystod y misoedd diwethaf, ac am ofalu bod y profiad o gadeirio yn un mor bleserus, gan fod pob un yn cyd-dynnu mor dda gyda'i gilydd gan rhoi o'u gorau bob amser i gefnogi gwaith yr eglwys. Ar ddiwedd 2017, daeth cyfnod i ben gydag ymdeoliad Keith Rowlands fel Trysorydd yr eglwys wedi 10 mlynedd yn y swydd. Nid gwaith hawdd yw bod yn gyfrifol am holl gyllid eglwys annibynnol ar y gorau, ond cymaint mwy oedd ei gyfrifoldeb dros gyfnod mor heriol yn ein hanes pan wariwyd cyfanswm o dri chwarter miliwn o bunnoedd ar godi'r Ganolfan ac atgyweirio'r Capel. Mae'r ffaith mai dim ond gweddill y benthyciad di-log gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sydd bellach i'w dalu o'r holl gostau adeiladu erbyn hyn yn dysteb deilwng iawn i ofal Keith o'r cyfrifon. I ddangos gwerthfawrogiad yr eglwys o'i gyfraniad, cynhaliwyd seremoni fer ar ddiwedd oedfa ganol Ionawr i'w anrhegu am ei lafur dros yr achos. Go brin bod unrhyw un ohonom yn sylweddoli iddo fynychu, yn ystod ei dymor yn y swydd, dros 200 o gyfarfodydd pwyllgor, a bancio arian casgliad tua 500 o oedfaon. Wrth ffarwelio â Keith, pleser yw manteisio ar y cyfle hwn i groesawu ei olynydd, Arwyn Jones. Dymunwn y gorau iddo yntau yn y swydd, a mawr yw ein diolch iddo am gytuno i dderbyn y gyfrifoldeb. Mae gennym ddyled fawr hefyd i swyddogion ac aelodau amrywiol bwyllgorau a gweithgorau'r eglwys am eu hymroddiad i'r achos flwyddyn ar ôl blwyddyn, sy'n galluogi'r eglwys i gynnal ystod eang o weithgareddau.

Ganol mis Tachwedd, hyfryd oedd croesawu pedwar Ymddiriedolwyr newydd i'r Bwrdd, sef Siân Llewelyn Barnes, Eluned Davies-Scott, Arwyn Lloyd Jones a Rhiannon Llewelyn. Diolch iddynt am eu parodrwydd i ymgymryd â'r gwaith – ac eisoes gwelwom arwyddion cadarnhaol y bydd y pedwar ohonynt yn gaffaeliad yn nhrefodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd dros y tair blynedd nesaf. Yn cyd-fynd ag enwebiad yr Ymddiriedolwyr newydd, roeddem yn ffarwelio â thri y daeth eu tymor ar y Bwrdd i ben, sef Carys Davies, Gwilym Huws a Wendy Reynolds – tri fu'n ffyddlon iawn i'n cyfarfodydd ac a wnaeth gyfraniad gwerthfawr. Bydd Gwilym yn parhau am y tro fel Ysgrifennydd, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddo am ei holl waith ar ran yr eglwys. Hyd nes i mi fynd i'r gadair, doeddwn i ddim yn llawn werthfawrogi'r holl oriau a dreuliai bob wythnos bron i gyflawni ei ddyletswyddau, a gwneud hynny'n drylwyr a phroffesiynol iawn bob amser.

Yn Adroddiad Blyneddol y llynedd, roeddem yn ymfalchïo yn y ffaith bod prosiect adnewyddu'r capel wedi ei gwblhau. Er bod yr Ymddiriedolwyr yn fodlon iawn gyda'r defnydd helaeth a wneir o'r Capel a'r Ganolfan i gynnal amrywiol weithgareddau'r eglwys ei hun, a'r defnydd cynyddol o'r adnoddau gan sefydliadau a chymdeithasau o fewn y gymuned ehangach megis ysgolion, corau a phartion canu lleol, maent bellach am droi eu sylw oddi wrth yr adeiladau er mwyn ysgogi datblygiadau newydd yng ngwaith craidd yr eglwys dros y blyneddod nesaf. Mae'n amserol bod modd cyplysu hyn gyda dathliadau pen-blwydd canrif a hanner codi'r capel presennol yn 2020. Eisoes mae cynlluniau uchelgeisiol dan ystyriaeth gan y Bwrdd, a byddwn yn manylu arnynt dros y misoedd nesaf ac i mewn i'r flwyddyn 2019.

Un o brif nodweddion hanes mwy diweddar Capel y Tabernacl yw'r ganran uchel o aelodau sy'n cyfrannu'n gyson at gynnal ein hoedfaon o Sul i Sul. Mae'r patrwm a sefydlwyd ers tro bellach – oedfaon pentref, oedfaon teuluol, oedfaon yr Ysgol Sul a'r Twmiaid – ynghyd â myfyrdodau meddylgar Emlyn Davies, Allan James, Geraint Rees, Keith Rowlands a'r Parchedig Eirian Rees, ynghyd â chyfraniadau gwerthfawr y Parchedig Gethin Rhys a'r Parchedig Aled Edwards, sydd bob amser yn ein cyffwrdd yn ysbrydol gyda'u cenadwri berthnasol. Caiff naws ddefosiynol yr oedfaon hyn ei chyfoethogi ymhellach gan ddewisiadau cerddorol amrywiol ein cyfeilyddion dawnus. Ond yr un mor bwysig yw cyfraniadau rhai sydd wedi cynorthwyo mewn ffyrdd llai cyhoeddus, megis y rhai sy'n llunio a dangos sleidiau, gofalu am yr elfennau ar Suliau'r cymun, trefnu'r daflen wythnosol, darparu'r blodau, a chroesawu ymwelwyr ac aelodau yng nghyntedd y capel ar fore Sul. Byddai enwi pawb yn unigol yn llenwi tri chwarter tudalen o leaf, felly rwy'n cyfyngu fy hun i enwi tri yn unig, sef Geraint Rees am drefnu rhaglen oedfaon y flwyddyn, Rowland Wynne am lunio rota'r Llywyddion, a Sian Elin Jones sydd yng ngofal rota'r cyfeilyddion.

Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi'n bersonol roedd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul a'r Twmiaid a oedd, fel bob amser, yn ddatliad ystyrion o arwyddocâd yr ŵyl. Uchafbwynt arall oedd perfformiad ysbrydoledig Côr Caerdydd o *Myfi Yw* ar Sul y Blodau; gosododd hwnnw naws addolgar priodol ar ddechrau wythnos y Pasg, a gwnaed casgliad anrhydeddus yn ystod yr oedfa i gefnogi elusen haeddiannol. Yn anffodus, ni allwn i fod yn bresennol yn yr oedfa ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol, ond deallaf fod fideo a sgwrs Cynan Llwyd am amodau byw a dewrder plant a phobl ifanc Haiti wedi arwain at benderfyniad y Twmiaid yn y fan a'r lle i drefnu stondin gacennau wedi'r oedfa y bore Sul canlynol, a thrwy hynny godi £115 tuag at apêl Wythnos Cymorth Cristnogol. Mewn dyddiau pan welir cymaint o feirniadu ar ymddygiad pobl ifanc, mae'n braf gweld aelodau'r Twmiaid yn ymateb mor fyrfyfyr a chadarnhaol i sefyllfa trueiniaid ym mhellafoedd byd.

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf

Fel Bwrdd, rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod nifer y plant sy'n mynychu'r Ysgol Sul a'r Twmiaid yn parhau i fod ymhlith prif gryfderau'r achos, a braf yw gweld cynifer o blant a phobl ifanc yn ymuno â ni'n rheolaidd yn ein gwasanaethau ar foreau Sul. Does dim amheuaeth bod y profiadau maent yn eu derbyn yn y capel a'r Ysgol Sul, a thrwy'r gweithgareddau allgyrsiol amrywiol a gynigir iddynt drwy gydol y flwyddyn, yn baratoad gwych at fod yn ddinasyddion gofalgwr yn y dyfodol. Diolch o galon i'r athrawon hynny sy'n rhoi o'u hamser prin i baratoi a chyflwyno gweithgareddau i gyflwyno dysgeidiaeth Iesu Grist trwy ddulliau amrywiol, perthnasol a difyr.

Adroddwyd y llynedd i'r Ymddiriedolwyr gytuno i brynu offer cyfieithu i'w ddefnyddio'n achlysurol mewn oedfaon. Bellach, pleser yw adrodd bod yr offer wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus iawn mewn dau fedydd. Roedd y teuluoedd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth hwn yn fawr, ac fel eglwys rydym yn ddyledus i Helen Prosser am ei gwaith cyfieithu-ar-y-pryd rhagorol ar y ddau achlysur. Erbyn hyn hefyd mae'r camau roedd angen eu dilyn er mwyn derbyn caniatâd y Swyddfa Gartref i gofrestru priodasau'n fewnol wedi eu cwblhau wrth i dri aelod – Rhiannon Humphreys, Rhys Llewelyn a Helen Middleton – dderbyn hyfforddiant priodol. Erbyn hyn, mae dwy briodas wedi eu cofrestru yn y dull yma, a deallwn fod y teuluoedd yn hynod o ddiolchgar i'r eglwys am sicrhau hyn. Yn yr un modd, yn yr adroddiad flwyddyn yn ôl, soniwyd am lwyddiant apêl Capel y Tabernacl i godi arian i gael diffibrilydd yn Efail Isaf. Bellach, mae'r diffibriliwr wedi ei osod yn ei le y tu allan i neuadd y pentref, ac mae tua 60 o aelodau'r gymuned wedi derbyn hyfforddiant CPR.


Mae'r Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus, dan arweiniad Gwion Evans, wedi parhau gyda'r gwaith o wirio'r aelodau hynny sy'n ymwneud â'r grŵp hwn, a diolch i'r rhai fu wrthi'n ddiwyd. Yn ystod y misoedd diwethaf, cyflwynwyd newidiadau pellgyrhaeddol i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu data personol. Derbyniwyd cyngor i'r perwyl hwn gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac aeth y Bwrdd ati i lunio polisi i warchod data personol yr aelodau rhag cael ei ddefnyddio gan eraill. Fe welwch un gwahaniaeth yn yr adroddiad blynyddol eleni, sef nad ydym bellach yn rhestru enwau a chyfeiriadau ein haelodau. Mae'r Bwrdd am i mi bwysleisio mai er mwyn cadw o fewn y ddeddfwriaeth y gwneir hyn, ac nid o ddewis.

Mae gweithgareddau elusennol bellach yn nodwedd gwbl ganolog o'n cenhadaeth fel eglwys, diolch i ddiwydrwydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol dan arweiniad brwdfrydig y Cadeirydd, John Llewellyn Thomas. Derbyniodd y bum elusen leol y cytunwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w cefnogi eleni – Adref; Prosiect Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf; Ysgol Tŷ Coch; Cymorth i Fenywod, a Nychdod Cyhyrol (*Muscular Dystrophy*) Duchenne a Becker – gyfraniad o £725 yr un o'r casgliad amlenni brown. Erbyn hyn, dim ond rhan o weithgarwch y Gweithgor yw hybu'r Gronfa Elusennau, a threfnu casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol ac Apêl Lesotho. Am ran helaeth o'r flwyddyn, maent yn hynod o ddiwyd yn cefnogi'r rhai mewn angen o fewn y gymuned leol a thu hwnt wrth gasglu nwyddau i'r banc bwyd lleol, eitemau hylendid, dillad, cewynnau babi ac eitemau i'r cartref, a'r cyfan yn gyfraniad amhrisiadwy i gynnal teuluoedd lleol.

Eleni, trodd ein golygon at sefyllfa echrydus pobl Rohingya a erlidiwyd o'u cartrefi gan luoedd Myanmar, a phenderfynwyd cynnal casgliad i gefnogi ymgyrch DEC. Codwyd dros £1,500 rhwng ein cyfraniadau ni, cynllun dyblu cronfa Llywodraeth San Steffan, a Chymorth Rhodd. Mae ymateb yr aelodau i'r holl weithgareddau elusennol yn parhau i fod yn eithriadol o gadarnhaol, a thros y deuddeg mis diwethaf yn unig dosbarthwyd tunelli o eitemau hanfodol i deuluoedd llai ffodus yn y cylch. Ar ben hyn i gyd, mae cyfraniad yr eglwys i fwydo'r digartref yng Nghapel y Tabernacl, Caerdydd, a staffio'r casgliad yn Tesco ar gyfer banc bwyd Pont-y-clun ddwywaith y flwyddyn, yn rhan annatod o galendr y Gweithgor a'r llu o wirfoddolwyr o blith yr aelodau. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn rhyw fodd neu gilydd i'r gwaith pwysig hwn. Yr tristwch yw nad oes unrhyw argoel bod amgylchiadau mwyafrif y rhai sydd mewn angen yn lleol, neu sy'n crafu byw yn rhannau mwyaf cythryblus y byd, yn debygol o gael eu datrys yn y tymor byr. Yn y cyfamser, rwy'n sicr y bydd yr eglwys yn parhau i wneud y cyfan o fewn ei gallu i liniaru amgylchiadau rhai o blith yr anghenus.

Cyn cloi, mae'n briodol crybwyll un o'r uchafbwyntiau ym mlwyddyn yr eglwys, a ddigwyddodd ddiwedd yr hydref 2017, sef y bererindod i gartref William Williams ym Mhantycelyn a manau eraill sy'n gysylltiedig â'r Pêr Ganiedydd yn ardal Llanymddyfri, ar achlysur dathlu 300 mlwyddiant ei eni. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y daith gofiadwy hon, yn enwedig Rhiannon a Gareth Humphreys a fu'n gyfrifol am holl drefniadau'r diwrnod.

Cyflwynwn ein cyfrifon am 2017, gan nodi ein diolch i'n cyfrifwyr Watts Gregory LLP am eu gwaith trylwyr unwaith yn rhagor. Ar ran holl swyddogion yr eglwys, hoffwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael eto eleni.


Margaret Pritchard Copley, Cadeirydd

**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR
CAPEL Y TABERNACL, CYF.**

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr Capel y Tabernacl, Cyf. ('y Cwmni')

Yr wyf yn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen am fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2017.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr y Cwmni (a hefyd y cyfarwyddwyr at ddibenion deddfwriaeth cwmnïau) chi'n sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('deddf 2006').


Wedi bodloni fy hun nad oes angen i gyfrifon y Cwmni dderbyn awdit o dan Rhan 16 Deddf 2006 a'i bod yn gymwys ar gyfer archwiliad annibynnol, gallaf adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr elusen o dan Adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn Cyfarwyddiadau y Comisiwn Elusennau o dan Adran 145(5) (b) o Ddeddf 2011).

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad, a gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'm harchwiliad sy'n peri i mi gredu:

1. nad yw'r cofnodion cyllido wedi eu cadw mewn perthynas â'r Cwmni yn unol â gofynion Adran 386 Deddf 2006; neu
2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hyn; neu
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion Adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg nad yw'n rhan o'r materion gaiff eu hystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
4. nad yw'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â methodoleg ac egwyddorion y Datganiad o Ymarfer a Argymhellwyd (*Statement of Recommended Practice*) a ddefnyddir i gyfrifo ac adrodd gan elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn ôl gofynion Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes gennyf unrhyw gonsŷrn, ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion mewn cysylltiad â'r archwiliad, y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn dod i ddealltwriaeth lawn o'r cyfrifon.



Watts Gregory LLP
Cyfrifwyr Siartredig
Elfed House
Oak Tree Court
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd
CF23 8RS

Dyddiad: 10 Awst 2018

CAPEL Y TABERNACL, Cyf

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
(YN CYNNWYS CYFRIF O INCWM A GWARIANT)
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017**

Nodiadau	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	2017 Cyfanswm Cronfeydd £	2016 Cyfanswm Cronfeydd £
INCWM A GWADDOLION O:				
Rhoddion a Chymynroddion	3	38,613	-	38,613
Gweithgareddau Elusennol	5			
Gweithgareddau Crefyddol		-	5,742	3,627
Incwm o fuddsoddiadau	4	<u>29</u>	=	<u>29</u>
Cyfanswm		38,642	5,742	63,796
GWARIANT AR				
Gweithgareddau Elusennol	6			
Gweithgareddau Crefyddol		<u>39,569</u>	<u>5,521</u>	<u>45,090</u>
INCWM NET/(GWARIANT)		(927)	221	13,387
Trosglwyddiad rhwng cronfeydd	16	<u>(1,100)</u>	<u>1,100</u>	=
Trosglwyddiad net rhwng cronfeydd		(2,027)	1,321	13,387
CYSONI'R CRONFEYDD				
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen		752,326	1,651	753,977
CYFANSWM Y CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN		<u>750,299</u>	<u>2,972</u>	<u>753,977</u>

GWEITHGAREDDAU SY'N PARHAU

Mae'r holl incwm a'r gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

CAPEL Y TABERNACL, Cyf

MANTOLEN AT 31 RHAGFYR 2017

Nodiadau	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	2017 Cyfanswm Cronfeydd £	2016 Cyfanswm Cronfeydd £
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau Diriaethol 12	692,677	-	692,677	695,196
ASEDU CYFREDOL				
Arian yn y banc	66,622	2,972	69,594	70,781
CREDYDWYR				
Yn ddyledus o fewn y flwyddyn 13	(3,000)	-	(3,000)	(3,000)
ASEDAU NET CYFREDOL	<u>63,622</u>	<u>2,972</u>	<u>66,594</u>	<u>67,781</u>
CYFANSWM ASEDAU LLAI DYLEDION CYFREDOL	756,299	2,972	759,271	762,977
CREDYDWYR				
Yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn 14	(6,000)	-	(6,000)	(9,000)
ASEDAU NET	<u>750,299</u>	<u>2,972</u>	<u>753,271</u>	<u>753,977</u>
CRONFEYDD	16			
Cronfeydd Anghyfyngedig			750,299	752,326
Cronfeydd Cyfyngedig			<u>2,972</u>	<u>1,651</u>
CYFANSWM Y CRONFEYDD			<u>753,271</u>	<u>753,977</u>

Mae gan y cwmni elusennol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2017.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusennol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2017 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

(a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac

(b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol bach.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 11 Medi 2018 a'u llofnodi ar eu rhan gan:



Arwyn Lloyd Jones
Ymddiriedolwr



Margaret Pritchard Copley
Ymddiriedolwr

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn gwmni cyfyngedig dan warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Gyfunol. Y Swyddfa Gofrestredig yw 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, Cymru, CF72 8SZ.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno mewn Sterling (£), sef arian cyfred y cwmni, yn grwn i'r bunt agosaf.

Prif ddben a natur yr elusen yw hybu gweithgarwch crefyddol.

Caiff y prif bolisiau cyfrifo a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu nodi isod. Cafodd y polisiau eu gweithredu'n gyson dros yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

2. POLISIAU CYFRIFO

Sail paratoi'r datganiadau ariannol

Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102 S1A Bwletin Diweddariad 1) (gweithredol o 1 Ionawr 2015), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol.

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff yr asedau a'r dyledion eu cydnabod o'r cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn / nodiadau cyfrifo perthnasol.

Incwm

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Lle mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae'r incwm yn debygol o gael ei dderbyn, ac mae modd mesur y swm yn hyderus.

Incwm cyfraniadau a chymynroddion

Mae incwm cyfraniadau a chymynroddion yn cynnwys cyfraniadau, rhoddion a grantiau sy'n sicrhau cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol a gydnabyddir lle bo hawl, a thebygolrwydd o'i dderbyn, a lle gellir mesur y swm gyda hyder digonol. Caiff incwm ei gadw'n ôl yn unig pan fydd y rhoddwr yn nodi bod rhaid ei ddefnyddio mewn cyfnod cyfrifo gwahanol, neu lle bo'r rhoddwr wedi gosod amodau y mae'n rhaid i'r elusen gwrdd â hwy cyn sicrhau hawl diamod ar y swm.

Incwm o weithgareddau elusennol

Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm a dderbyniwyd dan gytundeb neu lle bo'r hawl yn amodol ar berfformiad dan amodau penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod gan bod y gwasanaethau perthynol yn cael eu darparu, ac y mae yna hawl, a thebygolrwydd o dderbynneb, a gellir mesur y swm gyda dibynadwyedd digonol. Caiff yr incwm ei ohirio lle bo'r arian yn cael ei dderbyn cyn cyflawni'r gwasanaeth neu'r digwyddiad mae'r arian yn berthnasol iddo.

Incwm Buddsoddiadau

Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gydnabod ar sail ei dderbyn.

Nid yw'n bolisi gan yr elusen i ddangos incwm net o wariant.

Gwariant

Caiff ymrwymadau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo rheidrwydd cyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd raid trosglwyddo buddiannau economaidd fel setliad a gellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy. Caiff y gwariant ei gyfrifo ar sail cronadau, ac fe'i dosbarthwyd dan benawdau sy'n corlannu'r holl gostau o fewn y categori. Lle nad oes modd clustnodi costau dan benawd penodol, maent wedi eu clustnodi o dan weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

Mae costau sy'n ymwneud â chodi arian yn cynnwys costau ymgyrchu, hysbysebu a marchnata, a defnyddiau postio uniongyrchol.

Mae gwariant ar weithgarwch elusennol yn cynnwys y costau hynny a delir gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau er lles ei derbynwyr. Mae'n cynnwys nid yn unig y costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol, ond hefyd y gweithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017

2. POLISIŌAU CYFRIFO – PARHAD

Costau Cynorthwyol yw'r costau hynny nad ydynt, er yn hanfodol i'r elusen gyflawni ei hamcanion, yn creu na chyflawni gweithgarwch elusennol. Mae'r rhain yn cynnwys costau llywodraethiant, sef y costau hynny i gwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen, gan gynnwys ffioedd cyfrifo a chostau'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.

Asedau Sefydlog Diriaethol

Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost.

Amcangyfrifir y dibrisiad er mwyn lleihau cost yr ased, namyn yr amcangyfrif o werth sy'n weddill, dros oes yr ased fel a ganlyn:

Eiddo rhyddfrait	- dros 40 mlynedd
Offer a chyfarpar	- 25% o'r gost
Offer cyfrifiadurol	- 50% o'r gost

Trethiant

Mae'r elusen yn cael ei heithrio o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

Cyfrifo Cronfeydd

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol gyda sêl bendith yr ymddiriedolwyr. Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiad pan fo'r rhoddwr yn nodi hynny, neu pan fo'r gronfa wedi ei chreu i godi arian at bwrpasau cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach am natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Ymrwymadau Hurbrynu a Phrydles

Caiff rhenti a delir dan weithredoedd pryddles eu dangos yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Offerynnau Ariannol

Dim ond asedau ac ymrwymadau ariannol o'r math sy'n gymwys ar gyfer offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu derbyn yn y lle cyntaf ar sail y gwerth ariannol, ac yna eu mesur ar sail eu gwerth setliad.

Caiff benthyciadau rhatach eu derbyn a'u mesur yn y lle cyntaf ar sail eu gwerth ariannol, gyda'r symiau gaiff eu cario drosodd yn cael eu haddasu yn y blynyddoedd canlynol i adlewyrchu taliadau a wnaed ac unrhyw log sy'n deillio ohonynt.

Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill yn ôl y swm y cytunwyd arno ar ôl cynnwys unrhyw ddisgownt masnachol. Caiff blaendaliadau eu prisio ar y swm net o unrhyw ddisgownt sy'n ddyledus a dalwyd ymlaen llaw.

Credydwyr

Cydnabyddir credydwyr lle mae gan yr elusen ymrwymiad cyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a bod y swm i gwrdd â'r ymrwymiad yn un y gellir ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, caiff credydwyr eu cydnabod wrth iddynt setlo'r swm ar ôl caniatáu unrhyw ddisgownt masnachol sy'n ddyledus.

**NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL – PARHAD
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017**

3. RHODDION A CHYMYNRODDION

	2017	2016
	£	£
Amlenni	21,807	23,041
Casgliadau Rhydd	2,545	2,430
Rhent Tŷ Capel	4,590	4,590
Y Fynwent	151	838
Grantiau	-	13,260
Llogi'r Ganolfan	2,493	3,488
Amrywiol	878	852
Cronfa Atgyweirio'r Capel	-	1,000
Organ	-	5,000
Ad-daliad Treth Incwm	<u>6,149</u>	<u>5,650</u>
	<u>38,613</u>	<u>60,149</u>

Grantiau a dderbyniwyd gan gynnwys yr uchod, fel a ganlyn:

	2017	2016
	£	£
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	-	8,260
Ymddiriedolwyr Pantyfedwen	<u>-</u>	<u>5,000</u>
	<u>-</u>	<u>£13,260</u>

4. INCWM BUDDSODDIADAU

	2017	2016
	£	£
Llog Cyfrif Cadw	<u>29</u>	<u>20</u>

**5. INCWM O WEITHGAREDDAU
ELUSENNOL**

		2017	2016
		£	£
Gweithgarwch			
Apêl Lesotho	Gweithgarwch Crefyddol	404	297
Cronfa Elusennau	Gweithgarwch Crefyddol	3,511	3,080
Cymorth Cristnogol	Gweithgarwch Crefyddol	105	250
Apêl Diffibriliwr	Gweithgarwch Crefyddol	<u>1,722</u>	-
		<u>5,742</u>	<u>3,627</u>

**6. COSTAU GWEITHGAREDDAU
CREFYDDOL**

	Costau Uniongyrchol (Gweler Nodyn 7)	Costau Cymorth	Cyfanswm
	£	£	£
Gweithgarwch Crefyddol	<u>44,130</u>	<u>960</u>	<u>45,090</u>

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

**NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL – PARHAD
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017**

**7. COSTAU UNIONGYRCHOL
GWEITHGAREDDAU ELUSENNAU**

	2017	2016
	£	£
Cyflogau staff	5,625	5,625
Hurio offer a chyfarpar	-	81
Yswiriant	3,310	3,146
Gwres a Golau	4,534	4,471
Pregethwyr	1,520	1,000
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg	800	800
Ysgol Sul/Teulu Twm/ Llenyddiaeth	685	447
Gweinyddol	1,124	768
Y Ganolfan	936	1,315
Y Fynwent	1,050	1,315
Organ Newydd	-	5,000
Amrywiol	2,171	1,681
Costau Lesotho	-	1,000
Cronfa Elusennau	3,134	3,874
Cymorth Cristnogol	1,205	250
Costau Cynnal a Chadw	320	2,612
Apêl y Diffibriliwr	1,182	-
Dibrisiant	<u>16,534</u>	<u>16,184</u>
	<u>44,130</u>	<u>49,569</u>

8. INCWM NET/(GWARIANT)

Nodir incwm net (gwariant) ar ôl codi tâl (credydu):

	2017	2016
	£	£
Ffi archwilio	960	840
Dibrisiant – asedau'r cwmmi	16,534	16,184
Offer a chyfarpar	=	<u>81</u>

**9. CYDNABYDDIAETH A BUDDIANNAU'R
YMDDIRIEDOLWYR**

Ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiannau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2017, nac am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2016.

**10. COSTAU
STAFF**

Ar gyfartaledd misol cyflogwyd y nifer canlynol o staff yn ystod y flwyddyn:	2017	2016
	<u>2</u>	<u>2</u>

Nid oedd yr un o'r cyflogeion yn derbyn cyflog o fwy na £60,000.

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

**NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL – PARHAD
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017**

**11. CYMARIAETHAU AR GYFER Y DATGANIAD O
WEITHGAREDDAU ARIANNOL**

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm y Cronfeydd £
INCWM A CHYMYNRODDION O:			
Rhoddion a Chymynroddion	46,889	13,260	60,149
Gweithgareddau Elusennol			
Gweithgareddau Crefyddol	-	3,627	3,627
Incwm Buddsoddi	<u>20</u>	-	<u>20</u>
Cyfanswm	46,909	16,887	63,796
GWARIANT AR:			
Gweithgareddau Elusennol			
Gweithgareddau Crefyddol	<u>45,204</u>	<u>5,205</u>	<u>50,409</u>
Cyfanswm	<u>45,204</u>	<u>5,205</u>	<u>50,409</u>
INCWM NET/(GWARIANT)	1,705	11,682	13,387
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	<u>12,281</u>	<u>(12,281)</u>	-
Symudiadau net mewn cronfeydd	13,986	(599)	13,387
CYSONI CRONFEYDD			
Cyfanswm a gariwyd ymlaen	<u>738,340</u>	<u>2,250</u>	<u>740,590</u>
CYFANSWM A DDYGWYD YMLAEN	<u><u>752,326</u></u>	<u><u>1,651</u></u>	<u><u>753,977</u></u>

12. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

	Eiddo Rhyddfrait £	Cyfarpar ac offer £	Cyfansymiau £
COST			
Ar 1 Ionawr 2017	747,362	24,614	771,976
Ychwanegiadau	<u>14,015</u>	-	<u>14,015</u>
Ar 31 Rhagfyr 2017	<u>761,377</u>	<u>24,614</u>	<u>785,991</u>
DIBRISANT			
Ar 1 Ionawr 2017	52,166	24,614	76,780
Tâl am y flwyddyn	<u>16,534</u>	-	<u>16,534</u>
Ar 31 Rhagfyr 2017	<u>68,700</u>	<u>24,614</u>	<u>93,314</u>
GWERTH NET YN Y LLYFR			
Ar 31 Rhagfyr 2017	<u>692,677</u>	-	<u>692,677</u>
Ar 31 Rhagfyr 2016	<u>695,196</u>	-	<u>695,196</u>

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

**NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL – PARHAD
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017**

**13. CREDYDWYR: SYMIAU’N DDYLEDUS O FEWN Y
FLWYDDYN**

	2017	2016
	£	£
Benthyciadau eraill (gweler nodyn 15)	<u>3,000</u>	<u>3,000</u>

**14. CREDYDWYR: SYMIAU’N DDYLEDUS AR ÔL MWY NAG UN
FLWYDDYN**

	2017	2016
	£	£
Benthyciadau eraill (gweler nodyn 15)	6,000	9,000

15. BENTHYCIADAU

Ceir dadansoddiad o ddyddiad aeddfedu benthyciadau isod:

	2017	2016
	£	£
Symiau sy’n ddyledus o fewn un flwyddyn:	<u>3,000</u>	<u>3,000</u>
Symiau sy’n ddyledus rhwng un a dwy flynedd:	<u>3,000</u>	<u>3,000</u>
Symiau sy’n ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd:		
Benthyciadau eraill	<u>3,000</u>	<u>6,000</u>

Roedd yr offerynnau ariannol yn mesur y swm a dderbyniwyd gyda’r swm oedd yn cael ei gario ymlaen yn cael ei addasu i adlewyrchu’r ad-daliadau ac unrhyw log cronedig. Darperir y benthyciad ariannol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (Corfforedig) ar raddfa llog o 0%.

**16. SYMUDIADAU O FEWN
CRONFEYDD**

	Ar 1/1/17	Symudiadau net mewn cronfeydd	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	Ar 31/12/17
	£	£	£	£
Cronfeydd Anghyfyngedig				
Cronfa Gyffredinol	752,326	(927)	(1,100)	750,299
Cronfeydd Cyfyngedig				
Cronfa Lesotho	651	404	-	1,055
Cronfa Elusennau	1,000	377	-	1,377
Cymorth Cristnogol	-	(1,100)	1,100	-
Apêl Diffibriliwr	-	540	-	540
	<u>1,651</u>	<u>221</u>	<u>1,100</u>	<u>2,972</u>
CYFANSWM CRONFEYDD	<u>753,977</u>	<u>(706)</u>	<u>-</u>	<u>753,271</u>

**NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN
YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017 – PARHAD**

**16. SYMUDIADAU O
FEWN CRONFEYDD -
PARHAD**

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn:

	Adnoddau a dderbyniwyd	Adnoddau a wariwyd	Symudiadau mewn cronfeydd
	£	£	£
Cronfeydd Anghyfyngedig			
Cronfa Gyffredinol	38,642	(39,569)	(927)
Cronfeydd Cyfyngedig			
Cronfa Lesotho	404	-	404
Cronfa Elusennau	3,511	(3,134)	377
Cymorth Cristnogol	105	(1,205)	(1,100)
Apêl Diffibriliwr	<u>1,722</u>	<u>(1,182)</u>	<u>540</u>
	<u>5,742</u>	<u>(5,521)</u>	<u>221</u>
CYFANSYMLIAU CRONFEYDD	<u>44,384</u>	<u>(45,090)</u>	<u>(706)</u>

17. DATGELIADAU PARTÏON PERTHYNOL

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau i bartïon perthynol yn ystod y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2017.

18. OFFERYNNAU ARIANNOL

	2017	2016
	£	£
Asedau ariannol ar sail cost amorteiddiad	69,594	70,781
Treuliau ariannol ar sail cost amorteiddiad	9,000	12,000
Asedau sefydlog ar sail at gwerth y farchnad	<u>692,677</u>	<u>695,196</u>

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

CAPEL Y TABERNACL, Cyf

**DATGANIAD MANWL O'R GWEITHREDIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN
YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2017**

INCWM A CHYMYNRODDION	2017	2016
	£	£
Cyfraniadau a Chymynroddion		
Amlenni	21,807	23,041
Casgliadau rhydd	2,545	2,430
Rhent Tŷ Capel	4,590	4,590
Y Fynwent	151	838
Grantiau	-	13,260
Llogi'r Ganolfan	2,493	3,488
Amrywiol	878	852
Cronfa Atgyweirio'r Capel	-	1,000
Organ Newydd	-	5,000
Ad-daliad Treth Incwm	<u>6,149</u>	<u>5,650</u>
	38,613	60,149
Buddsoddiadau		
Llog y cyfrif cadw	29	20
Gweithgareddau Elusennol		
Apêl Lesotho	404	297
Cronfa Elusennau	3,511	3,080
Cymorth Cristnogol	105	250
Apêl Diffibriliwr	<u>1,722</u>	<u>-</u>
	<u>5,742</u>	<u>3,627</u>
Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd	44,384	63,796
GWARIANT		
Gweithgareddau Elusennol		
Cyflogau	5,625	5,625
Llogi offer a pheiriannau	-	81
Yswiriant	3,310	3,146
Gwres a Golau	4,534	4,471
Pregethwyr	1,520	1,000
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg	800	800
Ysgol Sul/Teulu Twm/ Llenyddiaeth	685	447
Gweinyddol	1,124	768
Y Ganolfan	936	1,315
Y Fynwent	1,050	1,315
Organ	-	5,000
Amrywiol	2,171	1,681
Costau Lesotho	-	1,000
Cronfa Elusennau	3,134	3,874
Cymorth Cristnogol	1,205	250
Costau Cynnal a Chadw	320	2,612
Apêl Diffibriliwr	1,182	-
Eiddo Rhyddfrait	<u>16,534</u>	<u>16,184</u>
	44,130	49,569
Costau Cymorth		
Costau Llywodraethu		
Ffi Archwilwyr	<u>960</u>	<u>840</u>
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	45,090	50,409
(Gwariant) Net / Incwm	<u>(706)</u>	<u>13,387</u>

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol statudol

Atodiad 1:

CYFRANIADAU AELODAU (£)

Dynoda () aelod unigol
Dynoda (c) gyfraniad drwy gyfamod*

Rhif	*	c	Achos	Elusen	Cyfanswm
1		c	420	90	510
3			78		78
4		c	300		300
5	*	c	150		150
6		c	250	25	275
7		c	250	50	300
8	*		180	60	240
9		c	216		216
10	*	c	300	50	350
11		c	420	90	510
12		c	240	70	310
13		c	540		540
14		c	840	50	890
15			M		
16	*	c	360	50	410
17	*	c	60		60
18		c	480	130	610
19		c	480	100	580
20	*	c	156		156
21	*	c	110.5		110.5
22		c	960	750	1710
23	*	c	330		330
24		c	150		150
25		c	360	50	410
26		c	400	100	500
27		c	250	80	330
28	*	c	240	100	340
29		c	96	55	151
30		c	480	50	530
31		c	180		180
32	*	c	90	60	150
33	*	c	300	50	350
34		c	156		156
35	*	c	120		120
36	*	c	240		240
37	*	c	132	10	142
38	*		40		40
39	*	c	0		0
40		c	240		240
41	*	c	122	15	137
42	*		0		0

Rhif	*	c	Achos	Elusen	Cyfanswm
43	*	c	120		120
44	*	c	240	20	260
45	*	c	125	65	190
46	*	c	0		0
47		c	240		240
48		c	300	45	345
49		c	204		204
50	*	c	60		60
51	*	c	162	25	187
52		c	180		180
53	*	c	240	30	270
54	*	c	120		120
55	*		0		0
56		c	120		120
57	*	c	77	20	97
58	*	c	90		90
59	*	c	48		48
60		c	240		240
61	*	c	255	120	375
62		c	240		240
63	*	c	77	20	97
64		c	460		460
65	*	c	100		100
66	*	c	100		100
67	*	c	18		18
68	*	c	0		0
69	*	c	110		110
70		c	330		330
71		c	300	100	400
72	*	c	130		130
73	*	c	120		120
74	*	c	102	15	117
75		c	240		240
76	*	c	300		300
77		c	360		360
79	*	c	120		120
80	*	c	0		0
81		c	180		180
82	*	c	0		0
83	*		0		0
84	*		0		0

Rhif	*	c	Achos	Elusen	Cyfanswm
87	*	c	150		150
88	*	c	240	100	340
89		c	240		240
90	*	c	50		50
92	*	c	240		240
93	*		0		0
94			0		0
95	*	c	120		120
96		c	264		264
97	*	c	120		120
98	*	c	220		220
100		c	120		120
101		c	180		180
102		c	240		240
103		c	480		480
104	*		0		0
105	*		0		0
106		c	60		60
107		c	236		236
108	*	c	0		0
109	*	c	100		100
110	*	c	24		24
111	*	c	120		120
112	*	c	300		300
114		c	240		240
115	*	c	0		0
116	*	c	72		72
117		c	4		4
118		c	0		0
119	*	c	20		20
121		c	180		180
122		c	600	200	800
123	*	c	120	60	180
124	*	c	120		120
126	*	c	60		60
128	*	c	60		60

Atodiad 2: YSTADEGAU 2017

AELODAU

Nifer yr aelodau ar ddechrau'r flwyddyn	170
Aelodau newydd	2
Aelodau wedi marw	2
Aelodau wedi ymadael	0
Nifer yr aelodau ar ddiwedd y flwyddyn	170

YR YSGOL SUL A'R TWMIAID

<u>Ysgol Sul</u>	
Dosbarth 3	16
Dosbarth 2	14
Dosbarth 1	36
<u>Twmiaid</u>	18
Cyfanswm	84

CYFANSWM CYFRANIADAU

Achos: £21,804.50
Elusen: £2,905.00